
Datganiad Ystadegol Cyntaf

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol Cymru yn seiliedig ar 2018

**5 Mai 2021**
**SFR 131/2021**

**Siart 1: Newid canrannol yn amcanestyniadau y boblogaeth yn ôl parc cenedlaethol a band oedran, 2018 i 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018, Llywodraeth Cymru

Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd poblogaethau Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro yn cynyddu 3.5% (1,190) a 2.5% (550) yn y drefn honno, gyda phoblogaeth Eryri yn gostwng 1.9% (480)
- amcanestynnir y bydd y tri pharc cenedlaethol yn gweld cynnydd canrannol mawr yn y poblogaethau sy'n 65 oed neu'n hŷn, a chynnydd mwy yn nifer y bobl 75 oed neu drosodd
- amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio (16 i 64 oed) a phlant (rhwng 0 a 15 oed) yn gostwng ar Arfordir Sir Benfro ac Eryri, tra amcanestynnir y bydd Bannau Brycheiniog yn gweld gostyngiad llai yn nifer y bobl o oedran gweithio a chynnydd yn nifer y plant

## Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer parciau cenedlaethol Cymru am y cyfnod 25 mlynedd o 2018 i 2043.

Maent yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2018, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth yn y dyfodol ac yn seiliedig ar ragdybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau yn y blynyddoedd cynt fel arfer.

## Yn y datganiad hwn


| | |
|---|---|
| Prif amcanestyniad | 5 |
| Cymariaethau | 15 |
| Nodiadau | 20 |



Ystadegydd: Martin Parry ~ 0300 025 0373 ~ ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter:@YstadegauCymru

## Ynglŷn â'r amcanestyniadau hyn

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig a'i gwledydd cyfansoddol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol ac ar gyfer parciau cenedlaethol. Cyhoeddwyd amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol 2018 ar gyfer Cymru ar 4 Awst 2020.

Mae'r amcanestyniadau hyn yn darparu amcangyfrifon o faint poblogaeth parciau cenedlaethol yng Nghymru yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol, yr ystyrir eu bod yn adlewyrchu patrymau demograffig orau ar y pryd.

Mae'r amcanestyniadau ar gael ar gyfer y cyfnod o 25 mlynedd, rhwng 2018 a 2043. Fodd bynnag, mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar 10 mlynedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniad, gan fod amcanestyniadau'n tueddu i ddod yn fwyfwy ansicr yn y tymor hwy, gan y gallai tueddiadau newid dros yr amserlen honno. Nid ydym yn cynhyrchu unrhyw amrywiolion ar gyfer yr amcanestyniadau hyn a'r hyn a gyflwynir yn y datganiad hwn yw'r 'prif' amcanestyniad.

Mae'n bwysig nodi nad rhagolygon yw'r amcanestyniadau hyn, ac nid ydynt yn ceisio rhagweld yr effaith y gallai polisïau'r llywodraeth yn y dyfodol, amgylchiadau economaidd newidiol, neu ffactorau eraill, megis pandemig y coronafeirws (COVID-19), ei chael ar ymddygiad demograffig. Mae'r adran gwybodaeth allweddol am ansawdd yn rhoi mwy o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd.

Mae'r amcanestyniadau ar gyfer parciau cenedlaethol yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer ardaloedd y parciau cenedlaethol, ac amcanestyniadau ar gyfer y rhannau o'r awdurdodau lleol sydd y tu allan i ffiniau'r parciau cenedlaethol. Gelwir y rhain yn ardaloedd 'gweddilliol'. Er bod y datganiad hwn yn canolbwyntio ar amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol, mae'r amcanestyniadau ar gyfer yr ardaloedd gweddilliol hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer cyflawnrwydd. Ceir rhagor o wybodaeth am yr amcanestyniadau ar gyfer ardaloedd gweddilliol yn yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd.

Mae'n bosibl cymharu'r amcanestyniadau hyn ag amcanestyniadau awdurdodau lleol 2018. Fodd bynnag, nid yw'r amcanestyniadau ar gyfer y parciau cenedlaethol a'r ardaloedd y tu allan i ffiniau'r parciau cenedlaethol (ardaloedd 'gweddilliol') wedi'u cyfyngu i amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu nad yw swm amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol o reidrwydd yn cyfateb i amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol. Mae hyn yn debyg i'r ffordd nad yw swm amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol o reidrwydd yn cyfateb i'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran Cymariaethau.


# Parciau cenedlaethol yng Nghymru

Pasiwyd Deddf Seneddol yn 1949 i sefydlu parciau cenedlaethol gyda'r nod o gadw eu harddwch naturiol, diogelu bywyd gwyllt, a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd.

Mae tri pharc cenedlaethol yng Nghymru, fel y dangosir ym Map 1. Y rhain yw:

1. Parc cenedlaethol Eryri
2. Parc cenedlaethol Arfordir Penfro
3. Parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Map 1: Parciau cenedlaethol yng Nghymru





© Hawlfraint y Goron 2021
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
Ionawr 2021

Yng Nghymru, mae gan bob parc cenedlaethol ei awdurdod parc cenedlaethol ei hun, sef yr awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y parc hefyd.

Mae'r tri pharc cenedlaethol yn cwmpasu 19.5% o arwynebedd tir Cymru ond o ganol 2018[1] roedd ganddynt 2.6% o'r boblogaeth.

## Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018

### Siart 2: Amcangyfrifon canol blwyddyn (MYE) o'r boblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth, 2008 i 2028




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y parc cenedlaethol, ONS, amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol Cymru yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Mae poblogaethau amcangyfrifedig yr holl barciau cenedlaethol wedi bod yn gymharol sefydlog rhwng 2008 a 2018. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 a 2028, amcanestynnir y bydd poblogaethau pob parc cenedlaethol yn parhau i aros yn gymharol sefydlog.

Rhwng 2018 a 2028, amcanestynnir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro yn cynyddu 3.5% a 2.5% yn y drefn honno, tra amcanestynnir y bydd poblogaeth Eryri yn gostwng 1.9%. Fodd bynnag, amcanestynnir y bydd hyn yn amrywio yn ôl oedran (gweler Siart 1).

Dangosodd Siart 1 y amcanestynnir y bydd nifer y bobl 65 oed neu hŷn a 75 oed neu hŷn yn cynyddu rhwng 2018 a 2028 ym mhob parc cenedlaethol. Mae'r duedd hon yn cyd-fynd â'r cynnydd a amcanestynnir a welwyd yn yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar sail 2018 ac yn yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn 2018. Nododd amcanestyniadau'r awdurdodau lleol y amcanestynnir y gostyngiadau canrannol mwyaf mewn pobl ifanc 16 i 64 oed mewn ardaloedd gwledig yn bennaf. Ategir hyn ar gyfer y tri pharc cenedlaethol, gyda nifer y bobl ifanc 16 i 64 oed yn gostwng ym mhob parc cenedlaethol rhwng 2018 a 2028.

[1] Er bod data canol-2019 ar gael, defnyddir data canol-2018 yn y fan hon gan mai honno yw blwyddyn sylfaen yr amcanestyniadau hyn.

## Parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw'r mwyaf poblog yng Nghymru gydag amcangyfrif o'r boblogaeth yng nghanol 2018 o dros 33,800 o bobl. Mae'n cwmpasu arwynebedd o 1,345km$^2$ sy'n rhoi dwysedd poblogaeth o 25 o bobl fesul cilomedr sgwâr.


Mae'r parc cenedlaethol o fewn nifer o awdurdodau lleol, gyda chyfrannau amrywiol o'r boblogaeth. Yr awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn ardal parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw:

- Powys
- Sir Gaerfyrddin
- Castell-nedd Port Talbot
- Rhondda Cynon Taf
- Merthyr Tudful
- Caerffili
- Blaenau Gwent
- Torfaen
- Sir Fynwy

Ar ganol 2018, Powys a Sir Fynwy sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o boblogaeth y parciau cenedlaethol, gyda Phowys yn cyfrif am 70% o'r boblogaeth a Sir Fynwy 22%. Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf (r) a Merthyr Tudful (r) sy'n gyfrifol am gyfran lai o boblogaeth y parciau cenedlaethol (4%, 3% ac 1% yn y drefn honno). Mae rhan fach iawn o Gastell-nedd Port Talbot, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen y tu mewn i ardal parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog felly at ddibenion yr amcanestyniadau hyn, nid ydym yn cyfrifo amcanestyniadau arwynebedd gweddilliol ar gyfer yr ardaloedd hyn.

(r) Wedi ei ddiwygio ar 19 Mai 2021 oherwydd cafodd yr awdurdodau lleol eu rhestru yn y drefn anghywir

**Siart 3: Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Bannau Brycheiniog yn ôl oedran a rhyw, 2018 i 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018, Llywodraeth Cymru

Mae'r pyramid poblogaeth hwn yn dangos sut yr amcanestynnir y bydd dosbarthiad poblogaeth parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn newid rhwng 2018 a 2028, yn ôl grŵp oedran a rhyw.


Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn heneiddio'n gyffredinol, gyda mwy o ddynion a menywod hŷn erbyn 2028
- amcanestynnir y bydd nifer y bobl 75 oed neu hŷn yn cynyddu 31%, gyda mwy o fenywod na dynion
- mae rhywfaint o amrywiaeth gyda'r grwpiau oedran eraill ar draws y ddau ryw, gyda chynnydd bach yn y boblogaeth o bobl ifanc 10 i 19 oed, ond gostyngiad bach i bobl 45 i 59 oed

## Parc cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Parc cenedlaethol Arfordir Penfro yw'r unig barc cenedlaethol sydd wedi'i gynnwys yn llawn mewn un awdurdod lleol (Sir Benfro) ac mae ganddo'r boblogaeth amcangyfrifedig leiaf, ar ychydig o dan 22,400 o bobl yng nghanol 2018. Mae'n cwmpasu 586km$^2$ sy'n rhoi dwysedd poblogaeth o 38 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Yng nghanol 2018, amcangyfrifwyd bod poblogaeth ardal y parc cenedlaethol yn 18% o ardal awdurdod lleol Sir Benfro.

**Siart 4: Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Arfordir Penfro yn ôl oedran a rhyw, 2018 i 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018, Llywodraeth Cymru

Mae'r pyramid poblogaeth yn dangos sut y amcanestynnir y bydd dosbarthiad poblogaeth parc cenedlaethol Arfordir Penfro yn newid rhwng 2018 a 2028, yn ôl grŵp oedran a rhyw.

Rhwng 2018 a 2028:


- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn heneiddio'n gyffredinol, gyda mwy o ddynion a menywod hŷn erbyn 2028

- amcanestynnir y bydd nifer y bobl 60 oed neu hŷn yn cynyddu 20% a amcanestynnir y bydd nifer y bobl 85 oed neu hŷn yn cynyddu 30%, gyda mwy o fenywod na dynion
- mae rhywfaint o amrywiaeth gyda'r grwpiau oedran eraill ar draws y ddau ryw, fodd bynnag, amcanestynnir y bydd y rhan fwyaf o grwpiau oedran sy'n iau na 60 oed yn gweld gostyngiad yn y boblogaeth

### Parc cenedlaethol Eryri

Parc cenedlaethol Eryri yw'r mwyaf yng Nghymru, ar 2,110km$^2$, gydag amcangyfrif o'r boblogaeth o ychydig o dan 25,400 yng nghanol 2018, gan roi dwysedd poblogaeth o 12 o bobl fesul cilomedr sgwâr iddo. Mae'r boblogaeth wedi'i rhannu rhwng Gwynedd a Chonwy, gydag 84% yn byw yng Ngwynedd a'r 16% sy'n weddill yng Nghonwy ar ganol 2018.

**Siart 5: Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Eryri yn ôl oedran a rhyw, 2018 i 2028**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018, Llywodraeth Cymru

Mae'r pyramid poblogaeth hwn yn dangos sut yr amcanestynnir y bydd dosbarthiad poblogaeth parc cenedlaethol Eryri yn newid rhwng 2018 a 2028, yn ôl grŵp oedran a rhyw.

Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn heneiddio'n gyffredinol, gyda mwy o ddynion a menywod hŷn erbyn 2028
- amcanestynnir y bydd nifer y bobl 60 oed neu hŷn yn cynyddu 11%, gyda mwy o fenywod na dynion
- mae rhywfaint o amrywiaeth gyda'r grwpiau oedran eraill ar draws y ddau ryw, fodd bynnag, amcanestynnir y bydd y rhan fwyaf o grwpiau oedran iau na 60 oed yn gweld gostyngiad yn y boblogaeth, gyda'r boblogaeth o bobl 20 i 29 oed yn gostwng 25%

## Cydrannau newid


Mae amcanestyniadau poblogaeth y parciau cenedlaethol yn cynnwys yr 'elfennau newid' canlynol yn fras:

1. genedigaethau
2. marwolaethau
3. mudo rhyngwladol
4. mudo mewnol (h.y. mudo rhwng parciau cenedlaethol yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU)

Mae newid naturiol, sef y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y marwolaethau, yn negyddol pan fydd mwy o farwolaethau na genedigaethau. Mae'n gadarnhaol pan fydd mwy o enedigaethau na marwolaethau.

Ymfudo net yw'r gwahaniaeth rhwng nifer y bobl sy'n symud i ardal, a nifer y bobl sy'n symud allan o ardal. Mae'n negyddol pan fydd mwy o bobl yn symud allan o ardal na symud i mewn. Mae'n gadarnhaol pan fydd mwy o bobl yn symud i ardal na symud allan.

**Siart 6: Newid yn amcanestyniadau poblogaeth y parciau cenedlaethol yn ôl cydrannau newid, ar gyfer 2018-19 a 2027-28**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018, Llywodraeth Cymru

Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd newid naturiol negyddol yn cynyddu ym mhob un o'r tri pharc cenedlaethol
- amcanestynnir y bydd mudo net cadarnhaol yn cynyddu ym mhob un o'r tri pharc cenedlaethol
- amcanestynnir y bydd mudo net cadarnhaol yn fwy na'r newid naturiol negyddol ym Mannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro, gan arwain at gynnydd cyffredinol yn y boblogaeth

- amcanestynnir y bydd mudo net cadarnhaol yn llai na'r newid naturiol negyddol yn Eryri, gan arwain at ostyngiadau cyffredinol yn y boblogaeth

**Tabl 1: Elfennau newid amcanestyniadau poblogaeth y parciau cenedlaethol, 2018-19 a 2027-28**

| | Genedigaethau | | Marwolaethau | | Mudo Net | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-2019 | 2027-2028 | 2018-2019 | 2027-2028 | 2018-2019 | 2027-2028 |
| Bannau Brycheiniog | 265 | 260 | 425 | 490 | 280 | 330 |
| Afordir Penfro | 125 | 115 | 290 | 340 | 195 | 285 |
| Eryri | 190 | 190 | 310 | 320 | 30 | 105 |

Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018, Llywodraeth Cymru

Yn Nhabl 1, mae mudo rhyngwladol a mewnol wedi'u cyfuno i ddarparu ffigur net cyffredinol ar gyfer mudo gan fod nifer y bobl sy'n symud i mewn ac allan o ardaloedd y parciau cenedlaethol bob blwyddyn yn gymharol fach (yn enwedig felly ar gyfer mudo rhyngwladol).


Rhwng 2018 a 2028:

- amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn gostwng ychydig ym Mannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro, tra amcanestynnir y bydd y niferoedd yn aros yr un fath yn Eryri
- amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn cynyddu ym mhob un o'r tri pharc cenedlaethol, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf a ragwelir yn Arfordir Penfro (17%)
- mae hyn yn golygu y amcanestynnir y bydd newid naturiol ar gyfer y tri pharc cenedlaethol yn fwyfwy negyddol (fel y dangosir yn Siart 6). Mae hyn yn debygol o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n byw yn y parciau cenedlaethol
- amcanestynnir y bydd mudo net cadarnhaol yn cynyddu dros y cyfnod ym mhob parc cenedlaethol

## Ardaloedd gweddilliol

Mae sawl awdurdod lleol yn rhannol y tu mewn i barc cenedlaethol ac yn rhannol y tu allan. Gelwir yr ardal sydd y tu allan i'r parc cenedlaethol yn 'ardal weddilliol'. Gweler yr adran [gwybodaeth allweddol am ansawdd](#) i gael rhagor o wybodaeth am sut y cyfrifir amcanestyniadau ar gyfer ardaloedd gweddilliol.

**Bannau Brycheiniog**




**Arfordir Sir Benfro**




**Eryri**





## Ardaloedd gweddilliol parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae pum prif awdurdod lleol sy'n rhannol o fewn parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog (gyda phedwar awdurdod lleol arall sydd â rhannau bach iawn o fewn ardal y parc cenedlaethol, nad ydynt wedi'u cynnwys yma).

Powys a Sir Fynwy sydd â'r gyfran fwyaf o'u poblogaethau yn y parc cenedlaethol (18% ac 8% yn y drefn honno). Mae llai nag 1% o boblogaethau Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf o fewn y parc cenedlaethol, o ganol 2018.

### Siart 7: Canran y newid yn yr amcanestyniadau poblogaeth yn ôl arwynebedd gweddilliol, 2018 i 2028




Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018, Llywodraeth Cymru

Rhwng 2018 a 2028, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn ardal weddilliol Sir Fynwy yn cynyddu'r mwyaf o bron i 2,900 (3.3%). Amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn ardal weddilliol Powys yn cynyddu leiaf (0.2%). Mae'r holl ardaloedd gweddilliol yn dangos gostyngiadau amcanestynedig yn y grwpiau oedran iau tra amcanestynnir y bydd y boblogaeth 65 oed neu hŷn yn cynyddu. Mae hyn yn unol â'r tueddiadau amcanestynedig a welwyd yn amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol 2018, a ddangosodd y amcanestynnir y bydd poblogaeth Powys yn cynyddu'r lleiaf allan o'r pum awdurdod lleol, a amcanestynnir y bydd Sir Fynwy yn cynyddu fwyaf.

### Ardal weddilliol parc cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae Arfordir Penfro wedi'i gynnwys o fewn awdurdod lleol Sir Benfro yn unig, gyda 18% o boblogaeth Sir Benfro o fewn y parc cenedlaethol yng nghanol 2018.

Rhwng 2018 a 2028, amcanestynnir y bydd poblogaeth ardal weddilliol Sir Benfro yn cynyddu 2.3% (2,300). Amcanestynnir y bydd y boblogaeth 65 oed a throsodd yn cynyddu 18.5% yn ardal weddilliol Sir Benfro, tra amcanestynnir y bydd yr oedrannau iau yn gostwng.

### Ardaloedd gweddilliol parc cenedlaethol Eryri

Mae Gwynedd a Chonwy yn rhannol o fewn parc cenedlaethol Eryri. Mae 17% o boblogaeth Gwynedd o fewn y parc cenedlaethol, tra bod 4% o boblogaeth Conwy o fewn y parc cenedlaethol, o ganol 2018.

Amcanestynnir y bydd ardaloedd gweddilliol Conwy a Gwynedd yn cynyddu 2.0% a 4.4% yn y drefn honno rhwng 2018 a 2028. Yn debyg i'r ardaloedd gweddilliol eraill, amcanestynnir y bydd y boblogaeth 65 oed a throsodd yn ardal weddilliol Conwy yn cynyddu 16.3%, tra amcanestynnir y bydd yr oedrannau iau yn gostwng. Yn ardal weddilliol Gwynedd, amcanestynnir y bydd y boblogaeth rhwng 0 a 15 a 16-64 oed yn cynyddu ychydig 0.1% a 3.8% yn y drefn honno.


## Cymariaethau

### Cymariaethau ag amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2014

Ers cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2014, gwnaed newid i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r tybiaethau ymfudo ar gyfer amcanestyniadau'r awdurdodau lleol ac amcanestyniadau parciau cenedlaethol. Ar gyfer amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol, cyfrifir tybiaethau ymfudo rhyngwladol a thybiaethau ymfudo mewnol ar wahân erbyn hyn (ar gyfer yr amcanestyniadau yn seiliedig ar 2014, cyfunwyd tybiaethau ymfudo mewnol a rhyngwladol). Yn unol â'r newidiadau a wnaed i amcanestyniadau'r awdurdodau lleol, cyfrifir tybiaethau ymfudo mewnol bellach yn seiliedig ar gyfraddau yn hytrach na niferoedd sefydlog. Mae'r tybiaethau ymfudo rhyngwladol yn parhau i fod yn nifer penodol dros gyfnod yr amcanestyniad.

Felly, mae'r gwahaniaethau rhwng amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2014 a 2018 yn adlewyrchu nid yn unig y newid mewn tueddiadau demograffig a welwyd yn ystod y cyfnod hwn, ond hefyd y newid yn y fethodoleg rhwng y ddwy gyfres o amcanestyniadau, yn ogystal â'r newid ym mlwyddyn sylfaen yr amcanestyniad.


**Siart 8: Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2014 a 2018 ar gyfer Bannau Brycheiniog, 2008 i 2028**




Noder: Nid yw echel y siart yn dechrau ar 0.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y parc cenedlaethol, amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol sy'n seiliedig ar ONS a 2014 a 2018, Llywodraeth Cymru


**Siart 9: Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2014 a 2018 ar gyfer Arfordir Penfro, 2008 i 2028**




Noder: Nid yw echel y siart yn dechrau ar 0.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y parc cenedlaethol, amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol sy'n seiliedig ar ONS a 2014 a 2018, Llywodraeth Cymru

**Siart 10: Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2014 a 2018 ar gyfer Eryri, 2008 i 2028**




Noder: Nid yw echel y siart yn dechrau ar 0.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y parc cenedlaethol, amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol sy'n seiliedig ar ONS a 2014 a 2018, Llywodraeth Cymru

Mae siartiau 8, 9 a 10 yn dangos bod y boblogaeth amcanestynedig ar gyfer 2028 yn uwch yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar 2018 nag yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar 2014 ar gyfer y tri pharc cenedlaethol.

Mae'r amcanestyniad ar gyfer parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2028, 2.3% yn uwch yn yr amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2018 na'r amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2014. Ar gyfer parc cenedlaethol Eryri, mae'r amcanestyniad ar gyfer 2028 4.0% yn uwch yn

amcanestyniadau poblogaeth 2018 nag amcanestyniadau poblogaeth 2014, ac mae 13.9% yn uwch ar gyfer Arfordir Penfro.

Mae nifer o resymau posibl dros hyn:


- roedd yr amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer Arfordir Penfro yn 2018 1.6% yn uwch nag amcanestyniad poblogaeth ar sail 2014, felly roedd yr amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2018 yn dechrau o linell sylfaen uwch ac amcanestynnir bod cydrannau newid (newid naturiol ac ymfudo) yn uwch nag yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar 2014. Adlewyrchir y gwahaniaeth hwn yn yr amcangyfrif canol-blwyddyn yn yr amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer Arfordir Penfro.
- mae'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer ymfudo wedi newid rhwng amcanestyniadau poblogaeth ar sail 2014 a'r rheini sy'n seiliedig ar 2018. Cyfrifir rhagdybiaethau ymfudo mewnol bellach ar sail cyfraddau yn hytrach na nifer oedd penodol. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd. Gall y gwahaniaeth methodolegol hwn effeithio ar gymaradwyedd y ddwy set o amcanestyniadau.
- mae rhai cyfyngiadau ar yr amcangyfrifon o'r ymfudo mewnol mewn parciau cenedlaethol oherwydd anawsterau wrth amcangyfrif ymfudo ar lefel ardal fach. Mae hyn yn ymddangos yn fwy amlwg yn Arfordir Penfro nac yn y parciau cenedlaethol eraill. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gweler adran gwybodaeth allweddol am ansawdd.

## Cymariaethau ag amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol 2018

Mae'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru wedi'u cynnwys mewn sawl awdurdod lleol gwahanol. Wrth i ni gyfrifo amcanestyniadau ar gyfer yr ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i ardaloedd y parciau cenedlaethol, mae'n bosibl cymharu'r amcanestyniadau hyn ag amcanestyniadau awdurdodau lleol 2018.

Gan nad ydym yn cyfyngu amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol i amcanestyniadau'r awdurdodau lleol, ni fyddant yn cyfateb yn union. Gall y gwahaniaethau rhwng y ddwy set o amcanestyniadau gael eu heffeithio gan y niferoedd cymharol fach a ddefnyddir wrth gyfrifo amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol. Mae rhai gwahaniaethau diffiniad hefyd yn y data mudo a ddefnyddir yn amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol o gymharu ag amcanestyniadau awdurdodau lleol. Felly, mae cymariaethau rhwng y ddwy set o amcanestyniadau yn gyfyngedig, ond mae modd eu cymharu yn fras. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd.

**Siart 11: Canran y gwahaniaeth yn y boblogaeth rhwng amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol ac amcanestyniadau awdurdodau lleol, 2018 i 2043**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018, amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn 2018, Llywodraeth Cymru

Mae'r siart hon yn dangos y gwahaniaeth canrannol rhwng cyfanswm amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol ac amcanestyniadau ardaloedd gweddilliol, ac amcanestyniadau'r awdurdodau lleol. Er enghraifft, ar gyfer Eryri, mae cyfanswm yr amcanestyniadau ar gyfer parc cenedlaethol Eryri, ardal weddilliol Gwynedd ac ardal weddilliol Conwy yn cael ei gymharu â chyfanswm amcanestyniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer Gwynedd a Chonwy.

Mae'r siart yn dangos bod modd cymharu amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol ac amcanestyniadau awdurdodau lleol yn fras dros gyfnod yr amcanestyniad, sy'n amrywio o lai nag 1% ar gyfer pob parc cenedlaethol erbyn 2043. Mae'r gwahaniaethau rhwng yr amcanestyniadau yn debygol o gael eu gyrru'n bennaf gan yr elfennau mudo oherwydd cyfyngiadau'r data a'r niferoedd cymharol fach sy'n mudo i mewn ac allan o barciau cenedlaethol.

## Cymariaethau â'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer parciau cenedlaethol

Cyhoeddodd yr ONS amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer parciau cenedlaethol ar gyfer canol 2019 ar 9 Medi 2020. Felly, mae'n bosibl cymharu'r amcangyfrif canol blwyddyn ar gyfer 2019 â'r boblogaeth a ragwelir ar gyfer 2019 ar gyfer pob parc cenedlaethol.

**Tabl 2: Cymharu'r amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth ac amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2018**

| | Amcangyfrif canol-2019 | Amcanestyniad poblogaeth 2019 | Gwahaniaeth | Canran y gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|
| Bannau Brycheiniog | 33,980 | 33,930 | -50 | -0.14% |
| Afordir Penfro | 22,320 | 22,370 | 60 | 0.26% |
| Eryri | 25,530 | 25,280 | -250 | -0.97% |

Noder: Mae'r data yn y tabl hwn wedi eu talgrynnu i'r 10 agosaf, felly mae'n bosibl na fydd y gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif a'r amcanestyniad yn union yr un peth â'r hyn sydd yn ymddangos yn y golofn 'Gwahaniaeth'.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y parc cenedlaethol, amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r parciau cenedlaethol yn 2018, Llywodraeth Cymru

Dengys Tabl 2 fod yr amcanestyniadau poblogaeth yn cyd-fynd yn fras â'r amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer 2019. Ar gyfer Bannau Brycheiniog, mae'r amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer 2019 0.14% yn is na'r amcangyfrifon canol blwyddyn, tra bod yr amcanestyniadau poblogaeth yn 2019 ar gyfer Arfordir Penfro 0.26% yn uwch na'r amcangyfrifon canol blwyddyn. Ar gyfer Eryri, mae gwahaniaeth ychydig yn fwy rhwng yr amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer 2019 a'r amcangyfrif canol blwyddyn. Byddem yn disgwyl rhai gwahaniaethau oherwydd amrywiadau mewn data genedigaethau, marwolaethau a mudo blynyddol.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Mae ystadegau poblogaeth a mudo yn bwysig ar gyfer datblygu polisïau, cynllunio, a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae galw mawr am ystadegau poblogaeth a mudo ar gyfer sefyllfaoedd amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynllunio gwasanaethau ac amcangyfrif anghenion y dyfodol ar lefel genedlaethol a lleol, (er enghraifft, ysgolion, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol) gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol
- cyfrannu at setliad refeniw Cyllid Llywodraeth Leol
- datblygu polisïau
- cyngor i Weinidogion
- cyfrannu at ddadleuon yn y Senedd a thu hwnt
- cyfrifo ystadegau pellach (er enghraifft, amcanestyniadau aelwydydd)
- enwaduron mewn cyfraddau (er enghraifft, cyfraddau geni a chyfraddau marwolaethau)
- cynhyrchu pwysolion mewn rhai arolygon sampl
- cymariaethau, a meincnodi a phroffilio daearyddol
- dadansoddiad carfannau poblogaeth a thueddiadau mudo
- cefnogi asesiadau lles sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amrywiaeth o ddefnyddwyr yn gwneud defnydd o ddata poblogaeth, o lywodraeth genedlaethol a lleol, elusennau a sefydliadau yn y sector gwirfoddol, adrannau eraill y llywodraeth, myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion, dinasyddion unigol, a chwmnïau preifat. Mae yna gryn ddiddordeb mewn amcanestyniadau ar lefel awdurdod lleol yn arbennig. Mae angen i'r rhai sy'n cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a helpu i lunio polisïau cynaliadwy ystyried y boblogaeth wedi'i dadansoddi yn ôl oedran a rhyw. Gall amcanestyniadau poblogaeth dynnu sylw at dueddiadau sy'n llunio'r cyd-destun ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

Daeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 i rym ym mis Gorffennaf 2015. Un o elfennau allweddol y Ddeddf yw galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddod at ei gilydd a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol, gan gwmpasu ardal ddaearyddol ehangach ac ymdrin â mwy na materion lleol yn unig. Bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), pan ddaw i rym, yn disodli'r strwythur llywodraethu ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu strategol.

Bydd tystiolaeth i ategu'r gwaith o baratoi cynllun yn cynnwys ystadegau demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd y bydd angen eu hystyried mewn cyd-destun strategol. Bydd fersiynau newydd o amcanestyniadau yn y dyfodol yn cyfrannu at lunio cynlluniau strategol.

Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol sydd â Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sy'n mesur sut mae polisïau wedi perfformio a pha gamau a allai fod eu hangen i'w cywiro. Mae'r adroddiadau hyn yn hollbwysig o ran sicrhau bod y CDLl yn parhau'n gyfredol. Gall y cynnydd a ddangosir yn yr adroddiadau effeithio ar lefelau a dosbarthiad poblogaeth, proffiliau demograffig, a phrisiau tai yn y dyfodol. Bydd y canlyniadau hyn a'u perthynas ag amcanion allweddol y cynllun yn ffurfio rhan o'r AMB.

## Cywirdeb

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth y dyfodol, ac maent wedi'u seilio ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau cynt. Yn gyffredinol mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Nid yw amcanestyniadau a wneir yn y modd hwn yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisïau llywodraeth leol neu ganolog ar lefelau, dosbarthiad a newid yn y boblogaeth yn y dyfodol.

Mae gan amcanestyniadau poblogaeth eu cyfyngiadau. Nid yw'r amcanestyniadau poblogaeth hyn ar gyfer parciau cenedlaethol yn rhagolygon seiliedig ar bolisi; maent yn dangos yr hyn y disgwylir iddo ddigwydd os bydd y tueddiadau y maent wedi'u seilio arnynt yn parhau.

Gan fod y broses o newid demograffig yn gronnol, mae amcanestyniadau yn dod yn gynyddol ansicr po bellaf y maent yn cael eu dwyn ymlaen. Mae newid demograffig yn effeithio ar rai poblogaethau'n gyflymach ac i fwy o raddau nag eraill. Oherwydd maint llifau mudo amcangyfrifedig, i rai parciau cenedlaethol mae tybiaethau mudo'n fwy allweddol na thybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau. Felly, gall tybiaethau mudo gael effaith hirdymor sylweddol ar rai ardaloedd.

Mae rhagdybiaethau'n ymwneud â chyfraddau genedigaethau a marwolaethau yn seiliedig ar lefelau hanesyddol marwolaethau a ffrwythlondeb a'r ffordd maent yn rhyngweithio â maint y boblogaeth ym mhob oedran. Maent yn amodol ar amrywiaeth (er enghraifft, drwy newidiadau mewn tueddiadau ffrwythlondeb neu gynnydd mewn disgwyliad oes) ond nid yw newidiadau o'r fath yn rhai tymor byr fel arfer. Gall mudo ryngweithio â'r tueddiadau hyn hefyd, ond mae'r tybiaethau mudo eu hunain yn agored i amrywiadau tymor byr yn seiliedig ar amgylchiadau economaidd neu gymdeithasol. Felly mae pennu cyfraddau mudo ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio'r cyfraddau ar gyfer y pum mlynedd flaenorol yn golygu y gall yr amcanestyniadau fod yn agored i anwadalrwydd tymor byr o ran cyfraddau mudo. Gall hyn fod yn arbennig o wir ar gyfer amcanestyniadau cyfredol, gan fod y rhagdybiaethau wedi'u seilio ar gyfnod a oedd yn cynnwys newidiadau eang mewn lefelau mudo a'r refferendwm ar adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae ffactorau a all ddylanwadu ar yr amcanestyniadau a thair prif elfen newid yn y boblogaeth: newidiadau yn yr economi; newidiadau yn ymddygiad unigolion, teuluoedd ac aelwydydd; a digwyddiadau y tu allan i'r DU.

*Methodoleg*

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (fel ar 30 Mehefin bob blwyddyn). Caiff amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer Cymru a Lloegr eu cynhyrchu gan yr ONS. Er mwyn cynhyrchu amcanestyniadau awdurdod lleol mae'r

amcangyfrifon poblogaeth yn cael eu cyfuno â thybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol.

O ran mudo, defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fudwr rhyngwladol; hynny yw, rhai sy'n newid eu gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Nid yw mudwyr tymor byr (er enghraifft, gweithwyr mudol o wledydd Dwyrain Ewrop) yn cael eu cyfrif yn yr amcangyfrifon poblogaeth.

Mae'r amcanestyniadau parciau cenedlaethol hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol-2018 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r data sylfaenol a ddefnyddir i wneud y cyfrifiadau yn cael ei gynhyrchu gan yr ONS ar gyfer y cyfnod amcanestyniadau i gyd, sef pum mlynedd ar hugain fel arfer. Er mwyn cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth, mae angen ffurfio tybiaethau i amcanestyn lefelau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol ar gyfer pob parc cenedlaethol.

Mae amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio dull demograffig sefydledig, sef y dull cydran carfan. Hynny yw:

- cymryd amcangyfrif poblogaeth y flwyddyn ddiweddaraf
- tynnu grwpiau poblogaeth arbennig o'r amcangyfrif
- heneiddio pob unigolyn un flwyddyn
- ychwanegu genedigaethau a thynnu marwolaethau
- caniatáu ar gyfer mudo i mewn ac allfudo
- ychwanegu yn ôl yn y grwpiau poblogaeth arbennig

Yn gyffredinol, mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r amcanestyniadau yn dangos beth allai ddigwydd pe bai'r tueddiadau hyn yn parhau.

Mae grwpiau poblogaeth arbennig yn cynnwys nifer y carcharorion ym mhob awdurdod lleol. O ganol-2011 ymlaen, roedd carcharorion yn cael eu hystyried fel arfer yn preswylio mewn sefydliad os oeddent yn bwrw dedfryd o chwe mis neu fwy.

Wrth gynhyrchu amcanestyniadau parciau cenedlaethol rydym hefyd yn cyfrifo amcanestyniadau ar gyfer y rhannau o'r awdurdod lleol y tu allan i'r parciau cenedlaethol, a alwn yn 'ardaloedd gweddilliol'. Y rhain yw:

### Bannau Brycheiniog

- Sir Gaerfyrddin
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Powys
- Rhondda Cynon Taf

### Eryri

- Conwy
- Gwynedd

## Arfordir Sir Benfro

- Sir Benfro

Mae rhannau bach iawn o'r parciau cenedlaethol mewn awdurdodau lleol eraill hefyd ond mae'r ardaloedd hyn mor fach fel nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr amcanestyniadau hyn. Mae'r amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer yr ardaloedd gweddilliol wedi'u cronni o amcangyfrifon ardaloedd bach, ac o wneud rhagdybiaethau ynghylch sut y caiff y boblogaeth ei dosbarthu ymhlith ardaloedd nad ydynt o fewn parciau cenedlaethol. Felly, er eu bod yn arwydd defnyddiol o faint y boblogaeth a newid yn y boblogaeth, ni ddylid eu trin fel ffigurau manwl gywir.

Gan fod y poblogaethau o fewn y parciau cenedlaethol sydd wedi'u rhannu i bob awdurdod lleol yn fach, nid yw'n ymarferol rhagweld tueddiadau ar gyfer y poblogaethau unigol hyn, felly rydym yn rhoi'r boblogaeth o fewn y parc cenedlaethol cyfan. Fodd bynnag, gallwn ddarparu amcangyfrif o raniad y boblogaeth ar gyfer blwyddyn sylfaen yr amcanestyniadau ar draws yr holl awdurdodau lleol. Gan fod tueddiadau'r boblogaeth yn debyg ar y cyfan ar draws y parc cenedlaethol cyfan, byddem yn disgwyl i'r rhaniad hwn barhau'n weddol gyson dros gyfnod yr amcanestyniad.

## Mudo

Ers cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol 2014, gwnaed newid i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r tybiaethau ymfudo ar gyfer amcanestyniadau'r awdurdodau lleol a'r amcanestyniadau parciau cenedlaethol. Ar gyfer amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol, cyfrifir tybiaethau ymfudo rhyngwladol a thybiaethau ymfudo mewnol ar wahân erbyn hyn (ar gyfer yr amcanestyniadau yn seiliedig ar 2014, cyfunwyd tybiaethau ymfudo mewnol a rhyngwladol). Yn unol â'r newidiadau a wnaed i amcanestyniadau'r awdurdodau lleol, cyfrifir tybiaethau ymfudo mewnol bellach yn seiliedig ar gyfraddau yn hytrach na rhifau sefydlog. Mae'r tybiaethau ymfudo rhyngwladol yn parhau i fod yn nifer penodol dros gyfnod yr amcanestyniad.

Er bod ansawdd yn sicrhau'r data ymfudo mewnol a ddefnyddir wrth gyfrifo'r amcanestyniadau, nodwyd cyfyngiad yn yr amcangyfrifon a gawn gan yr ONS sy'n effeithio ar bob parc cenedlaethol ond sy'n fwy amlwg ar gyfer Arfordir Penfro. Mae'n effeithio i raddau helaeth ar yr amcangyfrifon mudo ar gyfer pobl 20 i 29 oed, yn enwedig dynion yn y grŵp oedran hwnnw.

Mae'r amcangyfrifon ymfudo mewnol yn seiliedig ar y Gofrestr Cleifion Meddygon Teulu. Felly, bydd unrhyw unigolion nad ydynt wedi cofrestru gyda meddyg teulu ar ôl symud yn cael eu heithrio. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i oedolion ifanc, yn enwedig dynion. Gan fod data'r Gofrestr Cleifion yn cael eu derbyn ar ffurf dyfyniadau blynyddol, bydd pobl sy'n symud i barc cenedlaethol ac yna'n symud allan eto (neu i'r gwrthwyneb) rhwng darnau olynol yn cael eu heithrio. Yn ogystal, gall ansawdd y data gweinyddol a ddefnyddir wrth gynhyrchu amcangyfrifon ymfudo mewnol newid dros amser. Felly, dylid trin y data mudo yn ofalus.

Bu'n rhaid i ni hefyd gymhwyso addasiad i'r amcangyfrifon ymfudo ar gyfer Arfordir Penfro. Roedd yr addasiad hwn yn sicrhau nad oedd y niferoedd a oedd yn symud i mewn neu allan o Arfordir Penfro yn fwy nag awdurdod lleol Sir Benfro. Gwnaed yr addasiad hwn i raddau helaeth i rywfaint o'r data ar gyfer mudwyr hŷn.

Datblygwyd y fethodoleg ar gyfer yr amcanestyniadau hyn mewn cydweithrediad agos ag awdurdodau lleol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru drwy grŵp gweithredol Amcanestyniadau

Is-genedlaethol Cymru (WaSP). Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y broses o baratoi'r amcanestyniadau ac wedi bod yn fforwm ar gyfer trafodaeth dechnegol ar y fethodoleg a'r data sylfaen a ddefnyddir. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol ac eraill sydd â gwybodaeth a phrofiad o ddata demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth.

Mae diweddariadau rheolaidd wedi cael eu darparu hefyd mewn cyfarfodydd llawn o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (PCYC).

Mae canllawiau ar y fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd i greu'r amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar gyfer Cymru wedi'u cyhoeddi yn yr adroddiad technegol hwn. Mae'n disgrifio sut mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn cael eu cynhyrchu, ac yn disgrifio'n fanwl y fethodoleg a ddefnyddir i ddatblygu'r tybiaethau ar ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Mae amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol fel arfer yn cael eu cyfrif a'u cyhoeddi bob tair blynedd, i ddiwallu anghenion defnyddwyr yng Nghymru.

Amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014 oedd y gyfres ddiwethaf o amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017.

Cyhoeddodd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru mewn blog ym mis Hydref 2019 y byddai amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol sy'n seiliedig ar 2017 yn cael eu gohirio. Cyhoeddwyd erthygl ystadegol hefyd, yn amlinellu'r heriau a wynebwyd wrth gyfrifo amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol sy'n seiliedig ar 2017 mewn rhagor o fanylder, ac yn cyhoeddi diweddaru'r amcanestyniadau awdurdodau lleol i fod yn seiliedig ar 2018.

### Amser cyhoeddi arfaethedig yr amcanestyniadau nesaf

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fel arfer yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol bob dwy flynedd. Rhwng 15 Hydref a 12 Tachwedd, cynhaliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ymarfer ymgysylltu â defnyddwyr i roi cyfle i ddefnyddwyr roi adborth ar sut y gallent fynd ati i gyhoeddi ac amseru'r set nesaf o amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ac amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol. Cyhoeddwyd erthygl ar 19 Ebrill yn crynhoi ymatebion a chanlyniadau'r ymarfer ymgysylltu â defnyddwyr, yn ogystal â thrafod yr argymhellion terfynol.

Gwnaed argymhelliad terfynol ar gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol seiliedig ar 2020 gan y Pwyllgor Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol, yn cynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS), Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd yr argymhelliad hwn i Bwyllgor Cyfrifiad y DU (UKCC) ar gyfer penderfyniad terfynol. Mae'r UKCC, a gadeirir gan yr Ystadegydd Cenedlaethol, yn cydlynu materion ystadegol ledled y DU ac yn adolygu dulliau amgen o ddiwallu anghenion defnyddwyr yn y dyfodol am ystadegau demograffig-gymdeithasol poblogaeth ac ardal fach.

Penderfynodd UKCC, er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a nodwyd drwy'r ymgysylltu hwn â defnyddwyr, mai dim ond ar gyfer pob gwlad gyfansoddol yn y Deyrnas Unedig ac ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan y caiff amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol ei gyhoeddi, heb unrhyw amcanestyniadau ar sail amrywiolion. Mae hyn mewn ymateb i bandemig y coronafeirws (COVID-19) ac i gefnogi Adolygiad Oedran Pensiwn y Wladwriaeth sydd ar ddod. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu cyhoeddi'r rhain ym mis Rhagfyr 2021 o dan y teitl 'Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol dros dro yn seiliedig ar 2020' gan ddefnyddio set wedi'i diweddaru o dybiaethau demograffig.

Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi amcanestyniadau is-genedlaethol unwaith bob tair blynedd, felly, byddai'r set nesaf o amcanestyniadau ar gyfer Cymru yn seiliedig ar 2021. Felly, rydym yn cynnig y bydd y set nesaf o amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar gyfer Cymru yn seiliedig ar 2021.

Byddem yn croesawu unrhyw adborth ar y dull arfaethedig hwn drwy ein blwch post ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru.

### Hygyrchedd ac eglurder

Cyhoeddir manylion y datganiad ystadegol hwn ymlaen llaw ac yna caiff ei gyhoeddi ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru. Mae tablau manylach sydd yn cyd-fynd ar gael ar StatsCymru, gwasanaeth rhad ac am ddim i'w ddefnyddio sy'n caniatáu i ymwelwyr weld, trin, creu a lawrlwytho data.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Mae Cofnodion Cenedlaethol yr Alban yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sy’n cynnwys amcanestyniadau poblogaeth y parciau cenedlaethol. Cafodd amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol yn seiliedig ar 2018 eu cyhoeddi ddydd Mawrth 24 Mawrth 2020.

Nid yw’r ONS ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth ar lefel parc cenedlaethol ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae canllawiau ar gael i ddefnyddwyr er mwyn cymharu ffynonellau data a dulliau ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ledled y DU.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi’r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy’n golygu eu bod yn cydymffurfio â’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â’r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan gangen rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae’r Awdurdod yn ystyried a ydy’r ystadegau yn bodloni’r safonau

uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu a yw'r ystadegau yma yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan fydd y safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan fydd y safonau yn cael eu hadfer.

Cadarnhawyd y statws parhaus o'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Ionawr 2020 yn dilyn gwiriad cydymffurfiaeth gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Cynhaliwyd yr asesiad llawn diweddaraf o'r ystadegau hyn yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2015.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac rydym wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- gweithio gyda gweithgor Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WaSP) i wneud a chytuno ar welliannau i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r amcanestyniadau a'u hamrywiolion
- gwella sut y caiff yr ystadegau hyn eu cyflwyno
- gwella dibynadwyedd trwy leihau mynediad cyn cyhoeddi

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion pellach

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: https://llyw.cymru/amcanestyniadau-genedlaethol-or-boblogaeth

## Diweddariad nesaf

I'w gadarnhau

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.